# SL(5)789 – Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ("y Rheoliadau") i'w gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 15(2), 21(10), 32(1)(b), 36(3), 37(1)(a) a (b), 45, 46, 60(4), 65(5), 67, 82, 83, 97 a 98(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Mae Deddf 2018 yn sefydlu'r system yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, ac mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y system y darperir ar ei chyfer yn y Ddeddf honno. Dylid nodi bod y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o reoliadau a gyhoeddwyd ar yr un pryd, ynghyd â chod ymarfer sylweddol, a bod un Memorandwm Esboniadol yn ceisio ymdrin â'r holl offerynnau cysylltiedig hyn.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch dehongli termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau drwyddynt draw. Hefyd, mae darpariaethau dehongli penodol mewn rheoliadau eraill, pan fo'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn cael eu defnyddio at ddibenion rheoliadau sy'n ymdrin â mater penodol yn unig (er enghraifft, rheoliad 34 yn Rhan 4). Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysu rhywun neu roi dogfen i rywun o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin ag ystod o faterion sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu unigol, ac mae'n ychwanegu at ddarpariaethau Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf 2018. Yn benodol, mae rheoliadau 6 i 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol o dan adrannau 14 ac 31 o Ddeddf 2018 ynghylch yr angen i gynnal cynlluniau datblygu unigol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru na sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Mae darpariaethau hefyd sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cyfrifoldeb am gynllun datblygu unigol o un corff i un arall. Mae rheoliadau 20 i 25 yn cymhwyso, gydag addasiadau, ddyletswyddau yn Neddf 2018 mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau atodol ym Mhennod 3 o Ran 2 o Ddeddf 2018 a swyddogaethau yn adrannau 68 a 69 o'r Ddeddf honno. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol. Mae adran 60 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person (neu bersonau) yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i fod yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rheoliadau 27 ac 28 yn nodi'r cymwysterau neu'r profiad y mae rhaid i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol feddu arnynt neu arno, ac mae rheoliadau 29 a 30 yn rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu

ychwanegol. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar allu'r corff llywodraethu i roi cyfrifoldebau pellach i'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r darpariaethau hyn yn disodli'r darpariaethau yn Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020, sydd wedi eu dirymu gan reoliad 1.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd. Mae'n ymdrin â phobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau neu i gymryd y camau gweithredu sy'n ofynnol. At ddibenion Deddf 2018, nid oes gan berson alluedd pan nad oes ganddo alluedd o fewn ystyr "lack capacity" yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, hynny yw, pan nad oes ganddo alluedd meddyliol, nid galluedd cyfreithiol. Mae'r Rheoliadau yn darparu, pan na fo gan riant plentyn alluedd, fod pob cyfeiriad at riant y plentyn i'w ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at gynrychiolydd i'r rhiant. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu, pan na fo gan berson ifanc alluedd, fod y cyfeiriadau at y person ifanc i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gynrychiolydd y person ifanc, neu at riant y person ifanc.

Mae Rhan 4 yn ei gwneud yn glir bod y darpariaethau sy'n ymwneud â galluedd meddyliol yn cael effaith er gwaethaf adran 27(1)(g) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn ddogfen gyfansawdd sy'n ceisio ymdrin â'r gyfres o reoliadau a gyhoeddwyd ar yr un pryd, ynghyd â'r cod ymarfer cysylltiedig. Nodir bod y Memorandwm yn ymdrin mewn cryn fanylder â chanlyniadau ymgynghori perthnasol, asesiad o'r effaith ar gyfiawnder ac asesiad effaith rheoleiddiol manwl. Fodd bynnag, o gofio testun y Rheoliadau, sef y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, a'r rheini sydd â nam o ran eu galluedd, nid yw'n eglur a gynhaliwyd asesiadau effaith manwl hefyd mewn perthynas â chydraddoldeb a/neu hawliau dynol. Amlygir hyn ymhellach gan y ffaith bod y gyfres o

reoliadau dan sylw yn cynnwys Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021. Os yw'r asesiadau effaith perthnasol wedi'u cynnal yn hyn o beth, byddai'n ddefnyddiol cynnwys cyfeiriad at yr asesiadau a'r canfyddiadau cysylltiedig yn y Memorandwm, a hynny er mwyn hwyluso'r broses o asesu cymesuredd y Rheoliadau ymhellach.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig (AEI) ar gyfer y pecyn o is-ddeddfwriaeth a osodwyd gerbron y Senedd ar 2 Mawrth, sy'n cynnwys Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (disodlwyd y fersiwn a osodwyd ar 2 Mawrth gan y fersiwn a osodwyd ar 12 Mawrth) a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021. Mae crynodeb o'r AEI ar gael ar https://llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-rheoliadau-asesiad-effaith-integredig-html.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Mawrth 2021**